O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

**2016 Rhif (Cy. )**

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Cyfyngu ar Aros) 2016

*Gwnaed* *23 Chwefror 2016*

*Yn dod i rym* *25 Chwefror 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain – Caergybi (yr A55) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** ("Deddf 1984") ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Cyfyngu ar Aros) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cilfannau" ("*lay-bys*") yw unrhyw rannau o'r gefnffordd a fwriedir fel man aros i gerbydau ar ochrau'r gefnffordd a ffin gyfan neu rannol iddi o farciau ffordd o'r math a ddangosir yn niagram 1010 o Atodlen 6 i Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddydau Cyffredinol 2002**(2)**.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngu ar Aros**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r cilfannau a bennir yn yr Atodlen am gyfnod sy'n fwy na 4 awr, gan beidio â dychwelyd o fewn cyfnod o 4 awr, ar unrhyw ddiwrnod.

**Esemptiadau**

**4.** Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r cilfannau y cyfeirir atynt yn yr erthygl honno cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

(a) i gerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

i. gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

ii. symud unrhyw rwystr i draffig;

iii. cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o gilfannau; neu

iv. gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r cilfannau, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003**(3)**;

(b) i gerbyd gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(c) i gerbyd gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej yn y darnau hynny o'r cilfannau neu'n gyfagos iddynt;

(d) i gerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(e) i gerbyd stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Chwefror 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 2002/3113.
**(3)** 2003 p. 21.

## YR ATODLEN

1. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 4 (Bodedern) sy'n ymestyn o bwynt 929 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt 1,194 o fetrau i'r gorllewin o'r canolbwynt hwnnw.

2. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 4 (Bodedern) sy'n ymestyn o bwynt 3,538 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt 3,773 o fetrau i'r gorllewin o'r canolbwynt hwnnw.

3. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 4 (Bodedern) a Chyffordd 5 (Bryngwran) sy'n ymestyn o bwynt 610 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5 Ffordd Caergybi dros yr A55 wrth Gyffordd 4 hyd at bwynt 845 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

4. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 4 (Bodedern) a Chyffordd 5 (Bryngwran) sy'n ymestyn o bwynt 3,250 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5 Ffordd Caergybi dros yr A55 wrth Gyffordd 4 hyd

at bwynt 3,515 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

5. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd rhwng Cyffordd 3 (Y Fali) a Chyffordd 2 (Bae Trearddur) sy'n ymestyn o bwynt 4,155 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5 Ffordd Caergybi dros yr A55 wrth Gyffordd 3 hyd at bwynt 4,420 o fetrau i'r gorllewin o'r canolbwynt hwnnw.

6. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 3 (Y Fali) sy'n ymestyn o bwynt 1,505 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5153 dros yr A55 wrth Gyffordd 2 hyd at bwynt 1,770 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

7. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 6 (Llangefni) sy'n ymestyn o bwynt 1,440 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt 1,705 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

8. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 6 (Llangefni) sy'n ymestyn o bwynt 4,290 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt 4,555 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

9. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 6 (Llangefni) sy'n ymestyn o bwynt 6,325 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt 6,590 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

10. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 6 (Llangefni) a Chyffordd 7 (Y Gaerwen) sy'n ymestyn o bwynt 1,965 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5 Ffordd Caergybi dros yr A55 wrth Gyffordd 6 hyd at bwynt 2,230 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

11. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 7 (Y Gaerwen) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll) sy'n ymestyn o bwynt 930 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5152 dros yr A55 wrth Gyffordd 7 hyd at bwynt 1,195 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

12. Y darn o’r gilfan sy’n gyfagos i gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 7 (Y Gaerwen) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll) sy’n ymestyn o bwynt 3,510 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt y bont sy’n cario’r A5152 dros yr A55 wrth Gyffordd 7 hyd at bwynt 3,775 o fetrau i’r dwyrain o’r canolbwynt hwnnw.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CILFANNAU RHWNG CYFFORDD 2 (BAE TREARDDUR) A CHYFFORDD 8 (LLANFAIR PWLLGWYNGYLL), YNYS MÔN) (CYFYNGU AR AROS) 2016**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1, 2 a 4 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Effaith y Gorchymyn yw cyfyngu ar aros mewn cilfannau ar gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn, fel y'u pennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn. Daw'r Gorchymyn i rym ar 25 Chwefror 2016.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 23 Chwefror 2016 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r planiau cysylltiedig yn ystod oriau swyddfa arferol yn: Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni LL77 7TW a Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1222536.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
b. na chydymffurfwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 23 Chwefror 2016, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/ 2016).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

1. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gorllewin yr A55 rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 4 (Bodedern) sy'n ymestyn o bwynt 929 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt 1,194 o fetrau i'r gorllewin o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod A ar blan a adneuwyd 1).

2. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gorllewin yr A55 rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 4 (Bodedern) sy'n ymestyn o bwynt 3,538 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt 3,773 o fetrau i'r gorllewin o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod B ar blan a adneuwyd 1).

3. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng Cyffordd 4 (Bodedern) a Chyffordd 5 (Bryngwran) sy'n ymestyn o bwynt 610 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5 Ffordd Caergybi dros yr A55 wrth Gyffordd 4 hyd at bwynt 845 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod E ar blan a adneuwyd 1).

4. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng Cyffordd 4 (Bodedern) a Chyffordd 5 (Bryngwran) sy'n ymestyn o bwynt 3,250 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5 Ffordd Caergybi dros yr A55 wrth Gyffordd 4 hyd at bwynt 3,515 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod F ar blan a adneuwyd 1).

5. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gorllewin yr A55 rhwng Cyffordd 3 (Y Fali) a Chyffordd 2 (Bae Trearddur) sy'n ymestyn o bwynt 4,155 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5 Ffordd Caergybi dros yr A55 wrth Gyffordd 3 hyd at bwynt 4,420 o fetrau i'r gorllewin o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod C ar blan a adneuwyd 2).

6. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 3 (Y Fali) sy'n ymestyn o bwynt 1,505 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5153 dros yr A55 wrth Gyffordd 2 hyd at bwynt 1,770 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod D ar blan a adneuwyd 2).

7. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 6 (Llangefni) sy'n ymestyn o bwynt 1,440 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt

1,705 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod G ar blan a adneuwyd 3).

8. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 6 (Llangefni) sy'n ymestyn o bwynt 4,290 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt 4,555 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod H ar blan a adneuwyd 4).

9. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng Cyffordd 5 (Bryngwran) a Chyffordd 6 (Llangefni) sy'n ymestyn o bwynt 6,325 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A4080 dros yr A55 wrth Gyffordd 5 hyd at bwynt 6,590 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod I ar blan a adneuwyd 5).

10. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng Cyffordd 6 (Llangefni) a Chyffordd 7 (Y Gaerwen) sy'n ymestyn o bwynt 1,965 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5 Ffordd Caergybi dros yr A55 wrth Gyffordd 6 hyd at bwynt 2,230 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod J ar blan a adneuwyd 6).

11. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng Cyffordd 7 (Y Gaerwen) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll) sy'n ymestyn o bwynt 930 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5152 dros yr A55 wrth Gyffordd 7 hyd at bwynt 1,195 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod K ar blan a adneuwyd 7).

12. Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng Cyffordd 7 (Y Gaerwen) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll) sy'n ymestyn o bwynt 3,510 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5152 dros yr A55 wrth Gyffordd 7 hyd at bwynt 3,775 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw (Cyfeirnod L ar blan a adneuwyd 8).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CILFANNAU RHWNG CYFFORDD 2 (BAE TREARDDUR) A CHYFFORDD 8 (LLANFAIR PWLLGWYNGYLL), YNYS MÔN) (CYFYNGU AR AROS) 2016**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Mae angen y Gorchymyn i rwystro parcio dros nos yn y cilfannau sy'n gyfagos i gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll). Bydd y Gorchymyn yn helpu i sicrhau bod lle ar gael yn y cilfannau ac yn cynorthwyo i leihau'r problemau sbwriel ac iechyd yr amgylchedd sylweddol sy'n cael eu creu gan barcio dros nos.